

Catchphrase 2003: Ysbyty Brynaber - Week 45

Key language

Eisiau/Moyn
Eiliad
Dydd/Dyddiau
Diwrnod/diwrnodau
Blwyddyn/blynyddoedd
Degawd/Canrif

New Words

Gan bwyll	steady on
Rhestr	a list
Chwys domen	dripping with perspiration
Cwyno	to complain
Teganau	toys
Amynedd	patience
Paid â bod yn hir	don't be long
Môr forwyn	mermaid
Trafferth	trouble
Gwerth	worth
Dymunol	pleasant
Dw i'n falch o glywed	I'm glad to hear
Gwahoddiad	invitation
Treulio	to spend time
Aberth	a sacrifice
Magu digon o blwc	to pluck up enough courage
Di-deimlad	without feeling
Gweddill	the rest
Aberth	sacrifice
Gwerthfawrogi	to appreciate
Ar wib	in a hurry
Sychu	to dry
Llwg	starving
Cyngor	advice
Ymarfer corff	physical exercise
Yn amlwg	obvious
Cysylltiad cyson	constant contact
Manyl	detail
Gwasanaeth	service
Diffodd y golau	to put the lights out
Osgoi	to avoid
Golygu	to mean
Yn ddiweddar	lately
Yn fodlon	prepared to
Cyd-ddigwyddiad	coincidence
Anodd	difficult

Main Grammatical Points

An important word that features regularly in conversation is **eisiau** written

E-I-S-I-A-U – to want

You will have noticed I'm sure that its pronunciation however varies from character to character.

Eisiau can convey two meanings:

Dw i eisiau – I want or

Mae eisau ...arna i – I need or as in the following construction Mae eisiau ... hefo

Brian says Mae ishio amynedd hefo plant weithiau.

One needs patience with children

Ishio is the form in North Wales for eisiau

Agnes says: Dim môr forwyn mae hi ishie

Ishe is the form often heard in south Wales.

A more common form you'll hear in south Wales for to want is moyn.

Dwi'n moyn mynd – I want to go

Words conveying time feature prominently in this week's episodes

Stopia eiliad nawr Stop a second now is what Brian says to Agnes at the supermarket.

Eiliad is a second **eiliadau** - seconds

He could of course have said

Aros funud – wait a minute is an expression that you will also hear.

Dydd is the word for day as in dydd Sul, dydd Llun etc.

Dyddiau is the plural form

Another word you might hear is **diwrnod** or **diwrnodau**

These forms are generally used when days are not mentioned for example

Roeddwn i'n siarad ag e y diwrnod or blaen

I was talking to him the other day.

Wythnos is a week and **wythnosau** weeks

Note the form **pythefnos** – a fortnight

Rhodri says Dydyn ni ddim wedi gwneud dim byd ond ymarfer canu ers pythefnos

We haven't done anything but practice singing for a fortnight.

There are a few different forms in Welsh to convey the word year or years.

When referring to someone's age the form is **blwydd** or **mlwydd**

Tair blwydd oed

Pum mlwydd oed

A year is **blwyddyn** and the plural forms are **blynedd** or **blynnyddoedd**

Arwyn says: ar ôl blynnyddoedd o briodas after years of marriage

Ers meityn

Note also that Brian says Mae Rhodri a fi yma ers meityn

Ers meityn means for a while or for some time

Degawd/Canrif

Degawd is a decade – **degawdau** - decades

Canrif a century - **canrifoedd** – centuries

Ysbyty Brynaber: Episode 133

Agnes and Brian are doing their Christmas shopping. While Agnes goes off to on her own Brian bumps into Wendy Keating. Brian is extremely nervous and when Wendy leaves he is hugely relieved that Agnes hasn't see him talking to the young nurse.

Arwyn asks Jenny to come and spend Christmas with himself and his mother. After a strong protest she promises to consider the proposition.

Geirfa

Gan bwyll	steady on
Rhestr	a list
Chwys domen	dripping with perspiration
Cwyno	to complain
Teganau	toys
Amynedd	patience
Paid â bod yn hir	don't be long
Môr forwyn	mermaid
Trafferth	trouble
Gwerth	worth
Dymunol	pleasant
Dw i'n falch o glywed	I'm glad to hear
Gwahoddiad	invitation
Treulio	to spend time
Aberth	a sacrifice
Magu digon o blwc	to pluck up enough courage
Di-deimlad	without feeling
Gweddill	the rest
Aberth	sacrifice
Gwerthfawrogi	to appreciate

Golygfa 1

Agnes - Brian? Aros?

Brian - Aros? Pam eto?

Agnes - Stopia eiliad nawr! Gan bwyll, a gad i fi edrych ar y rhestr yma unwaith eto...Wyt ti wedi blino?

Brian - Ydw. A dw i'n teimlo'n boeth ac yn chwys domen yng nghanol yr holl bobl yma...

Agnes - Paid â dechrau cwyno nawr. Dyn ni wedi gwneud y rhan fwy o siopa Sion Corn ar gyfer y plant heno...

Agnes - Gad i ni chwilio am ddoli i Beca ac fe allwn ni dalu am y teganau yma a mynd adre wedyn.

Brian - Diolch byth!

Agnes - Yr unig broblem yw fod Beca wedi gofyn i Sion Corn am ddoli 'deep sea diver'...Ond doedd dim un ar ôl ar y silff...

Brian - Roedd yna sawl doli môr-forwyn ar ôl yna...

Agnes - Dim môr-forwyn mae hi eisie, ond doli 'deep sea diver' ...Wnaiff dol fach mor-forwyn ddim mo'r tro o gwbl...

Brian - Mae eisiau amynedd hefo plant weithia...

Agnes - Oes. Dw i'n gwybod. Dyna pam mae siopa Nadolig yn waith mor galed i un person, ti'n gweld...

Brian - Wyt i am i mi fynd i holi aelod o staff y siop yma am ddoli 'deep sea diver' 'ta...?

Agnes - Na, na. Fe â i. Aros di fan hyn gyda'r troli.

Brian - Paid â bod yn hir.

Agnes - Fe wna i fy ngorau.

Wendy - Heia...!

Brian - Wendy! Beth uffern...?

Wendy - Long time no see ers dydd Sul. Ble rwyd ti wedi bod yn cwato?

Brian - Dyma syrpreis!...O ble dest ti rwan?

Wendy - O draw fan'co...Mae ffantastig 'play stations' 'da nhw...

Brian - Oes, dw i'n gwbod. Dw i newydd brynu dau.....
 Wendy - A wedyn, 'well lo and behold' : pwy welais i'n pasio heibio ond ti a hi...! And I sort of followed you around for a bit like a little puppy...
 Brian - Fydd Agnes yn ôl yma unrhyw eiliad...
 Wendy - You seemed very hunkey-dory...
 Brian - Dim ond wedi mynd i holi am rhyw doli 'deep sea diver' mae hi...
 Wendy - Isn't Sister Rees a bit old to be playing with dolls?
 Brian - Dol ar gyfer hosan Nadolig Beca ydy hi.
 Wendy - Dw i'n gwybod. Jôc. Good heavens, man: cool down. No need to be so jumpy...
 Brian - Wendy, paid â gadael i Agnes ein dal ni.
 Wendy - Pam ddim?
 Brian - Fydd o'n fwy o drafferth nag o werth.
 Wendy - I bwy?
 Brian - I bawb ohonon ni.
 Wendy - Ddim i fi, pal.
 Brian - Plis.
 Wendy - O.K. Pryd rwy'n dy weld ti nesa 'te?
 Brian - Amser cinio dydd lau.
 Wendy - Amser cino dydd lau amdani 'te. I love you.
 Agnes - Dwyt ti ddim yn mynd i gredu hyn.
 Brian - Beth?
 Agnes - Y doli Deep Sea Diver yma oedd yr olaf un yn y siop i gyd. Aeth y boi mas i'r cefn i'w moyn hi i fi. Ti ddim yn meddwl ein bod ni'n ddau berson lwcus...?

Golygfa 2

Arwyn - Canu da...
 Jenny - Ydy, mae o. Canu dymunol iawn...
 Arwyn - Wythnos i dydd lau a mae hi'n Nadolig.
 Jenny - Ydy.
 Arwyn - Mae Mam yn dod ata i am gino dydd Nadolig. Ddwedais i wrthot ti?
 Jenny - Naddo. Ond dw i'n falch o glywed.
 Arwyn - A hoffwn i estyn gwahoddiad i ti hefyd.
 Jenny - ...Arwyn. Rydyn ni wedi cael y sgwrs yma echdoe...
 Arwyn - Ydyn, dw i'n gwybod...Ond beth yw un prynhawn mas o dy fywyd di? Un prynhawn bach,
 Jenny. Dyna'r cyfan fyddai fe...Plis, dere draw at Mam a fi...
 Jenny - A'r unig reswm wyt ti'n gofyn achos fe fydd dy fam hefo ti? Ydw i'n iawn?
 Arwyn - Nac wyt, dwyt ti ddim yn iawn...
 Jenny - Ydw, rydw i yn iawn. A pham? Am dy fod ti wedi methu magu digon o blwc i ddeud wrthi yn blwmp ac yn blaen dy fod ti a fi wedi gwahanu... sori, Arwyn. Ond dydw i ddim am dreulio dydd Nadolig arall yng nghwmni dy fam byth eto. A DYNA DDIWEDD AR Y MATER...
 Arwyn - Rwyd ti wedi mynd yn ddi-deimlad iawn tuag ata i...
 Jenny - Na. Trio bod yn realistig ydw i.
 Arwyn - Jest dere draw am ginio 'te. Does dim rhaid iti aros weddill y pnawn. Dwy awr fyddai e ar y mwya. Dydy hynny ddim yn llawer o aberth ar ôl blynyddoedd o briodas ydy e?
 Jenny - Gad imi feddwl am y peth.
 Arwyn - Diolch iti, Jenny. Dw i'n gwerthfawrogi hynny'n fawr.

Ysbyty Brynaber: Episode 134

Brian and Agnes take the family to the swimming pool. Agnes tells her husband that she really appreciates the way he has taken his family responsibilities seriously over the past weeks.

In the changing rooms Agnes meets Wendy Keating. When she meets up with Brian she accuses him of still maintaining a relationship with Wendy Keating.

Geirfa

Sychu	to dry
Llwg	starving
Cyngor	advice
Ymarfer corff	physical exercise
Yn amlwg	obvious
Cysylltiad cyson	constant contact
Manyl	detail

Golygfa 1

Agnes - Aros fan hyn am eiliad, Brian....

Brian - Pam? Beth sy'n bod?

Agnes - Mae Beca eisiau inni edrych arni yn dod i lawr y sleid...

Brian - Mae hi wedi magu digon o blwc i fentro ar y sleid o'r diwedd, ydy hi?

Agnes - Ydy. Ond mae Rhodri am fynd gyda hi hefyd...Diolch iti, Brei.

Brian - Diolch am beth?

Agnes - Am fod yn dad mor dda.

Brian - Beth ydy hyn? Compliment?

Agnes - Achos rwyf ti'n ei haeddu fe.

Brian - Rwyf ti'n gwneud imi gochi hyd at fy nghlustiau rwan...

Agnes - Mae'r wythnosau diwetha yma wedi bod yn grêt. Rwyf ti wedi helpu llawer...Rwyf ti wedi gwneud gwaith cartre gyda Rhodri...Rwyf ti wedi rhoi bath i Beca bron bob nos...Rwyf ti wedi helpu fi i wneud y siopa Nadolig i gyd...Ac rwyf ti wedi dod gyda ni i nofio heno...

Brian - Mae'n bwysig ein bod ni'n gwneud pethau fel teulu on'd ydy?

Agnes - Ac rym ni yn deulu on'd ydyn ni?

Brian - Ydyn. Wrth gwrs ein bod ni...

Agnes - A phan wy'n meddwl pa mor agos ddaethon ni i gael ein gwahanu oherwydd y bitsh fach

Wendy Keating 'na, mae 'nghalon i'n oeri i gyd...

Brian - Mae Wendy a fi yn hen hanes bellach.

Agnes - Dw i'n falch o glywed hynny, Brian. Yffach! Dacw Beca'n dod i lawr y sleid nawr...!

Brian - Bobol bach! Mae hi'n dod ar wib...!

Golygfa 2

Agnes - Beca - dere yma i fi dy sychu di yn iawn. Edrych ar dy wallt di, ferch. Mae e'n sefyll lan ar ôl yr holl chlorine 'na. Pan awn ni nôl gartre nawr dw i'n siwr wnaiff Dadi ei olchi fe gyda shampw.

Liciet ti hynny? Iawn. Cer i wisgo nawr. Dw i'n siwr fod Rhodri a Dadi wedi mynd lan i'r café yn barod. Ar ôl yr holl nofio 'na, dw i'n siwr dy fod ti bron â llwgu...Beth liciet ti i swper heno 'te? Byrgyr a chips fel dy frawd, ie?

Wendy - Wel, wel...Look who's here.

Agnes - Wendy... ..

Wendy - Wedi bod yn nofio? Neu'n mynd i nofio?

Agnes - Wedi bod yn nofio...

Wendy - Outing bach i'r teulu, ie?

Agnes - Ie.

Wendy - Very nice. Do you mind if I undress here?

Agnes - You carry on....

Wendy - Dw i'n trio nofio bob nos nawr...Dyna beth oedd eu cyngor nhw yn yr ante-natal clinic i ni mums-to-be...Ddwedon nhw bod eisiau lot o ymarfer corff arnon ni...I fod yn fit and healthy ar gyfer y big day pan ddaw'r babi, ynte?

Agnes - Beca, wyt ti'n barod i fynd?

Wendy - Ges i three D scan ddoe...Smo nhw'n rhoi hynny i chi ar y National Health...I gael three D scan chi'n gorfod mynd yn private...Ac mae private health care yn costio, ond doedd dim ots 'da Brian ...Beth sy'n bwysig i Bri a fi yw bod y babi yn iach...

Agnes - Beca, dere! Alla i ddim cymryd dim mwy o hyn!

Wendy - Twdlw, Sister Rees. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ti!

Golygfa 3

Rhodri - Ga i can o Coke, Dad?

Brian - Aros i dy chwaer gyrraedd gynta a gewch chi'ch dau Coke yr un pryd wedyn...

Rhodri - Mae syched arna i...

Brian - Fydd hi yma mewn eiliad...A! Dyma Agnes a Beca yn dod rwan ... Ble dach chi'ch dwy wedi bod ? Mae Rhodri a fi yma ers meitin – on'd ydyn ni, Rhod?

Agnes - Rhodri, dyma ti arian - cer â Beca draw at y cownter i ddewis beth dych chi moyn i fwyta ac yfed...

Rhodri - Diolch, Mam...

Brian - Oes rhywbeth yn bod?

Agnes - Wyt ti'n dweud y gwir wrtho i, Brian?

Brian - Y gwir...? Am beth rwan...?

Agnes - Popeth sy'n mynd ymlaen yn dy fywyd di.

Brian - Ydw...Wrth gwrs fy mod i...Pam wyt ti'n gofyn hyn i mi rwan?

Agnes - Wyt ti wedi talu am scan three D i Wendy Keating?

Brian - ...Ydw.

Agnes - Pam wnest ti hynny...?

Brian - Achos ei bod hi'n poeni...

Agnes - Ond ddwedest ti ddim byd wrtho i...Rwyd ti'n amlwg mewn cysylltiad cyson 'da hi o hyd? On'd wyt ti...?

Brian - Mae'n rhaid imi wneud rhyw gymaint hefo hi...Ond dydw i ddim yn dweud bob un manylyn bach wrthot ti, er mwyn arbed rhoi mwy o boen meddwl iti...

Agnes - Wyt ti'n ei charu hi o hyd?

Brian - Nac ydw. Nac ydw, dydw i ddim yn ei charu hi o gwbl.

Ysbyty Brynaber: Episode 135

Agnes is still unhappy that her husband has paid for a private scan for Wendy Keating. Brian reassures Agnes that his only concern is his wife and children.

Brian pays Wendy a visit and accuses her of stalking himself and his family.

Geirfa

Gwasanaeth	service
Diffodd y golau	to put the lights out
Osgoi	to avoid
Golygu	to mean
Yn ddiweddar	lately
Yn fodlon	prepared to
Cyd-ddigwyddiad	coincidence
Anodd	difficult

Golygfa 1

Agnes - Rhodri, paid â rhoi'r teledu ymlaen!

Rhodri - O, Mam...

Agnes - Mae gwasanaeth ysgol 'da ti yn yr eglwys bore 'fory am naw o'r gloch a dw i am i ti a Beca fynd lan i'r gwely nawr...

Brian - Ia. Mae'ch mam yn llygad ei lle. I fyny â chi rwan.

Rhodri - Boring gwasanaeth eglwys! Smo ni wedi gwneud dim byd ond ymarfer canu ac adrodd ers pythefnos!

Brian - Nos da rwan...

Agnes - A fydda i lan cyn bo hir i ddiffodd y golau - iawn?

Rhodri - Iawn...

Agnes - Mae 'da ti a fi lot o drafod i wneud, Brian.

Brian - Agnes, dydw i ddim yn caru Wendy Keating. Dydw i ddim yn ei charu hi! Mae'n rhaid iti 'nghredu fi.

Agnes - Ti'n ei charu hi ddigon i dalu am scan preifat iddi...Pam allai hi ddim talu am scan preifat ei hunan?

Brian - Am ei bod hi'n ddi-waith.

Agnes - Mae popeth ti'n ddweud wrtho i heno jest yn gwneud i fi deimlo'n lot yn waeth...Wyt ti'n deall hynny?

Brian - Edrycha...Agnes...Fel ti'n gwybod ers amser - fel rydyn ni'n dau wedi trafod - mi fydd rhaid imi dalu am fagu'r babi 'ma. Does gen i ddim dewis. Alla i ddim osgoi y peth. Ac rwyf ti'n gwybod hynny ers sbel go lew...

Brian - Ond dydy hynny ddim yn golygu fy mod i'n caru Wendy Keating. Dydw i ddim yn ei charu hi? Iawn?

Agnes - Sa i'n siwr os ydw i'n dy gredu ti.

Brian - Pam?

Agnes - Achos rwyf ti wedi fy nhwyllo i o'r blaen Brian.

Brian - Agnes...Gwranda rwan...Gwranda'n astud - reit? Ti dy hun ddwedodd mor hapus oedd det ti fy mod i'n gwneud mwy hefo'r teulu yn ddiweddar...Wyt ti'n cofio dweud hynny?

Agnes - Ydw...

Brian - Wyt ti'n cofio deud mor hapus oedd det ti fy mod i'n helpu Rhodri hefo'i waith cartref? Mor hapus oedd det ti fy mod i'n rhoi bath i Beca?

Agnes - Mae hynny'n wir...

Brian - Ac wyt ti'n cofio dweud mor hapus oedd det ti fy mod i'n fodlon dod hefo ti i wneud siopa Nadolig? A mor hapus oedd det ti ein bod ni i gyd fel teulu yn mynd i nofio hefo'n gilydd? Wyt ti'n cofio dweud hynny? Wel, ateb di hyn i mi: os ydw i'n caru Wendy Keating, pam ydw i'n dewis gwneud cymaint hefo fy nheulu - ac yn bwysicach - dros fy nheulu? Mmmm?

Golygfa 2

Wendy - O.K.. O.K. Hold your horses, dw i'n dod nawr...

Heia! Dyma pleasant suprise, Bri. Dôn i ddim yn disgwyl dy weld ti 'ma tan amser cino...
 And to what do I owe this honour?
 Brian - Pam oeddet ti yn y pwll nofio neithiwr?
 Wendy - Achos dw i'n mynd i'r pwll nofio bob nos.
 Brian - Ers pryd?
 Wendy - Ers i fi gael y three D scan wythnos diwetha...Ti'n tense am rywbeth, alla i ddweud...
 Brian - Ydw, mi ydw i...Yn uffernol o tense i ti gael dallt...
 Wendy - Pam?
 Brian - Pam wyt ti'n meddwl?
 Wendy - I don't know. You tell me, big boy...
 Brian - Dw i'n meddwl ei fod o'n ormod o gyd-ddigwyddiad...
 Wendy - Cyd-what?
 Brian - Cyd-ddigwyddiad. Coincidence. Dydy o ddim yn od dy fod ti yn y siop deganau nos Fawrth pan oedd Agnes a fi yno? A neithiwr wyt ti'n digwydd bod yn y pwll nofio pan oedden ni yno hefyd...Beth wyt ti'n drio'i wneud, Wendy?
 Wendy - Fel dwedaist ti, cyd-ddigwyddiad oedd e.
 Brian - Na. Dw i'n meddwl ei fod yn fwy na hynny.
 Wendy - What are you trying to say, Bri? That I'm stalking you? But so what? You belong to me – not her. And everytime I see you with her it tears me apart. And what's worse is your lies. You always tell me that you're going to bring things to an end; that you're going to walk out on this pathetic dead loss marriage to that awful cow of a woman. But when push comes to shove, you never do!
 Brian - Mi wna i. Ond yn fy amser fy hun.
 Wendy - Dy amser dy hun. Heard that one loads of times before...
 Brian - Dw i'n mynd i'w gadael hi! O.K.?
 Wendy - Yeah. Of course. In the month of Sundays. What will the state pension be by then d'you reckon?
 Brian - Jest...paid a gwneud pethau yn anodd i mi.
 Wendy - Anodd i ti? That's a bit rich. You're having the best of both worlds aren't you? Living with her; having your wicked way with me. Mae hynny'n arrangement hynky-dory iawn, on'd dyw e?
 Brian - Dwi yn dy garu di. A hefo ti dw i eisiau bod.
 Wendy - I'll believe that when I see you actually doing something concrete about it. Like walking through that door one morning with a black eye and two suitcases...O.K., pal?

Synopsis

Arwyn tried to persuade Jenny to join himself and his mother for Christmas lunch. She agreed to consider the matter.

Wendy Keating is still causing mayhem in the Rees household. She met Agnes and told her that Brian had agreed to pay for a scan for her. Agnes has second thoughts about her husband's fidelity. Brian has his work cut out to convince his wife that the whole affair is over.

Brian however met up with Wendy and told her that it was his intention to leave his wife.

Test yourself

1. What is the Welsh for 'in two seconds'?
 - a) mewn dau eiliad
 - b) mewn dwy eiliadau
 - c) **mewn dwy eiliad**
2. What's the Welsh for 'patience'?
 - a) Ymenyn
 - b) Ymennydd
 - c) **Amynedd**
3. How would you translate 'the other day' into Welsh?
 - a) y mis o'r blaen
 - b) **y diwrnod o'r blaen**
 - c) y dyddiau o'r blaen
4. What's the Welsh word for 'to appreciate'?
 - a) gwerthu
 - b) **gwerthfawrogi**
 - c) crogi
5. How would you say 'She's been here for some time' in Welsh?
 - a) Mae hi wedi bod yma ers pythefnos
 - b) Mae hi wedi bod yma ers blynnyddoedd
 - c) **Mae hi wedi bod yma ers meityn**
6. How would you tell someone to 'put out the light' in Welsh?
 - a) **diffoddwch y golau**
 - b) rhowch y golau allan
 - c) dodwch y golau allan